Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Gorffennaf 2019

Amser: 14.30 - 14.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5448

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mick Antoniw AC (Cadeirydd) Carwyn Jones AC Dai Lloyd AC
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Sarah Sargent (Ail Glerc) Rachael Davies (Dirprwy Glerc) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies AC.

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 SL(5)429 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

2.2 SL(5)431 - Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

3 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

3.1 WS-30C(5)138 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Milfeddygon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r pwyntiau a nodwyd yn y sylwebaeth.

4 Offerynnau Statudol sydd angen cydsyniad: Ymadael â'r UE

4.1 SICM(5)24 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio ac ati) Rheoliadau (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio â chyflwyno cynnig i'w drafod.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

7 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) a chytunodd arno. Nododd yr Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol sef 2 Awst 2019.

8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham

Trafododd y Pwyllgor y nodyn cyngor cyfreithiol y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham.

9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â gwaith yn y dyfodol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes.

10 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer ymchwiliad yn ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol, datganoli a Brexit, a chytunodd ar y cylch gorchwyl. Cytunodd y Pwyllgor i lansio'r ymchwiliad o fewn yr wythnosau nesaf.